

1. SGWÂR CANOLOG

Rydyn ni'n dechrau yn Sgwâr Canolog y tu allan i orsaf Caerdydd Canolog. Ar ochr chwith adeiladau'r orsaf (lle mae Marks and Spencer bellach) oedd y tafarn y Red Dragon, bar hoyw poblogaidd ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au. Anoddach dychmygu nawr yw'r rhesi o dai teras a oedd unwaith yn llenwi Sgwâr Canolog, neu 'Temperance Town', fel y'i gelwid. Mae tystiolaeth ddogfennol o ramant cwiar yn digwydd yn y rhan hon o Gaerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

2. SGWÂR CALLAGHAN


Gan droi i'r dde i adael Sgwâr Canolog, trown i'r dde wrth y gyffordd ger gwesty Sleeperz ac ar hyd Heol Penarth. Fe wnawn ni oedi ar bwys adeilad Nwy Prydain ar Lanfa Gorllewin y Gamlas, sef lleoliad y Bristol Hotel gynt. Yn hanesyddol, ychydig iawn o leoliadau LGBTQ+ Caerdydd oedd yn darparu hafan ddiogel i fenywod. Y Bristol Hotel oedd un o'r cynharaf a'r mwyaf poblogaidd. Parhewch i lawr Glanfa Gorllewin y Gamlas i Sgwâr Callaghan. Efallai nad yw'n edrych yn fawr nawr, ond roedd Sgwâr Callaghan unwaith yn gartref i nifer o dafarndai a oedd yn gyfeillgar i gleientiaid LGBTQ+ gan gynnwys y Quebec, y Glendower Hotel, gwesty Custom House a'r Crown Inn. Roedd y Quebec yn chwedlonol, yn enwedig i ddilynwyr y gitarydd jazz o Butetown, Victor Parker.

3. Y DUKE OF WELLINGTON A'R KING'S CROSS

Ewch ymlaen i ddiwedd Sgwâr Callaghan a throi i'r chwith ar Stryd Bute. Rydym yn parhau tuag at y Golden Cross, hen dduges fawreddog LGBTQ+ Caerdydd. Os ydych yn sychedig erbyn y pwynt hwn yn y daith, beth am alw i mewn ac edmygu'r ... teils! Cerddwch i fyny i'r Aes, lle byddwch yn gweld llyfrgell Caerdydd Canolog ar eich chwith ac, ymhellach ymlaen, y Duke of Wellington. Mae'r dafarn gyferbyn bellach yn dwyn yr enw diffiwlach The Corner House, ond yn hanesyddol hon oedd y King's Cross, tafarn LGBTQ+ fwyaf poblogaidd Caerdydd. Roedd pawb yn mynd yma! Ac nid dim ond am ei fod wedi'i leoli'n gyfleus wrth ymyl Chippy Lane!

4. HEOL EGLWYS FAIR ISAF

O Blas yr Aes, rydym yn troi i'r chwith i Lôn y Felin ac yn cerdded heibio'r Corner House i gyrraedd Bill's. Dyma fynedfa Arcêd Wyndham, ar y dde. Ewch i mewn i'r arcêd a cherdded i'r allanfa gyferbyn lle byddwn yn cyrraedd Heol Eglwys Fair. Gallwn nawr oedi ger bar Dirty Martini am yr olygfa orau ar y rhan hon o'r daith. Ar ochr dde Heol Eglwys Fair, gallwch weld rhes o hen dafarndai a gwestai, gan gynnwys Peppermint Lounge. Dyma galon cwiar hanesyddol Caerdydd gyda lleoliadau fel y Blue Anchor, y Royal Oak, clwb nos arloesol Sir's, a Sam's Bar/The Terminus (sef hen enwau'r Peppermint Lounge bresennol). Rydym yn parhau i fyny Heol Eglwys Fair i far y Philharmonic. Yn y rhes hon o adeiladau oedd siop rhyw gyntaf y ddinas, bar hoyw-gyfeillgar cynnar, a neuadd ddawns Fictoraidd lle'r oedd dynion, yn absenoldeb menywod, yn dawnsio'n fodlon gyda dynion eraill. Ar y gornel, rydym yn cyrraedd y Prince of Wales, adeilad sy'n drawiadol o ran pensaernïaeth (roedd rhan ohono unwaith yn eglwys) a hen sinema 'las'. Croeswch y ffordd a dewch i orffwys y tu allan i'r Royal Hotel. Drws nesaf, mae Mary's yn parhau â'r traddodiad o gael lleoliad cwiar yn y rhan hon o Gaerdydd.



5. TUNNEL CLUB AC AMGUEDDFA CAERDYDD

Parhewch ar hyd Heol Eglwys Fair nes ichi gyrraedd y gyffordd â Heol y Cawl. Trowch i Heol y Cawl nes ichi gyrraedd Bakers Row. Dyma leoliad y Tunnel Club enwog, a oedd yn annwyl i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd yn y 1980au – gan gynnwys Lily Savage. Parhewch ymlaen i'r Aes. Wrth i Stryd y Cawl droi mewn i'r Aes, byddwch yn wynebu adeilad trawiadol yr Hen Lyfrgell, a oedd unwaith yn gartref i Lyfrgell ac Amgueddfa Gyhoeddus Caerdydd. Yn y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd, roedd hwn yn fan poblogaidd ar gyfer darllen ac ar gyfer cyfarfod. Roedd yr holl lyfrau 'celf' diweddaraf o Lundain ar y silffoedd yma! Y dyddiau hyn, mae'r adeilad yn gartref i Amgueddfa Caerdydd (Stori Caerdydd gynt) ac mae ganddo un neu ddwy eitem o bwys i hanes LGBTQ+ ein dinas, gan gynnwys allwedd i fynd i mewn i Sir's!

6. HEOL SIARL

Daliwch ati i gerdded i lawr yr Aes ac ewch i mewn i ganolfan siopa Dewi Sant ar y chwith, drwy'r fynedfa gyferbyn â'r Arcêd Frenhinol. Ewch tuag at yr allanfa ar ochr arall yr adeilad (dewch allan o'r adeilad ger cerflun sy'n edrych fel mellten David Bowie). Ar eich ffordd drwodd, byddwch yn pasio safle Hunter's, lleoliad poblogaidd ar ddechrau'r 1980au ac olynnydd y Showbiz Club. Wrth adael y ganolfan siopa, ewch tuag at Heol Siarl (mae adeilad y Ganolfan Byd Gwaith ar y gornel). Ewch tuag at rif 58; y Swyddfa Hawliau a Gwybodaeth oedd hon. Dilynwch Heol Siarl nes ichi ddod allan i Heol y Frenhines. Trowch i'r dde ac oedi ar gornel Ffordd Churchill. Yma gallwch weld Pulse. Parhewch ar Heol y Frenhines nes ichi gyrraedd Plas Windsor. Bydd hyn yn mynd â chi heibio hen Fwyty Dubrovnik, efallai'r unig fwyty o Gaerdydd a gofnodwyd erioed yn Gay News (!), a Main Stage. Parhewch ar draws y brif ffordd i mewn i Gilgant Sant Andreas. Trowch i'r chwith ym Mhlas Sant Andreas tuag at Erddi'r Orsedd a'r Amgueddfa Genedlaethol.

7. YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Rydym yn gorffen ein taith yma yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Fel arfer ar yr ŵyl banc ym mis Awst mae'r gerddi y tu allan i'r amgueddfa yn gartref i Benwythnos Mawr Pride Cymru. Ym mis Ionawr 1988, dyma hefyd oedd lleoliad protest mwyaf Cymru yn erbyn Adran 28. Mae'r Amgueddfa Genedlaethol yn drysorfa o gelf LGBTQ+! Gyda llaw, pe baech yn cerdded ar hyd Plas y Parc o Undeb y Myfyrwyr yn ôl tuag at Heol y Frenhines, byddech yn dilyn llwybr y gorymdeithiau Pride gwreiddiol drwy'r ddinas (a ddechreuodd ym 1985). Y dyddiau hyn maen nhw'n dod i ben ger yr Amgueddfa Genedlaethol, fel y gwnaethom ni.

EDRYCHWCH AR FAP RHYNGWEITHIOL CAERDYDD LGBT COLL A DISGRIFIADAU O LEOLIADAU YN: WWW.PRIDECYMRU.COM/PROJECT/LOST-LGBT-CARDIFF

